CYFARFOD

# Cyfarfod y Bwrdd Gwaith Ieuenctid Dros Dro: 14 Hydref 2020

Agenda a chofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 14 Hydref 2020.

Cyhoeddwyd gyntaf: 21 Rhagfyr 2020

Diweddarwyd ddiwethaf: 21 Rhagfyr 2020

## Agenda

| Amser | Eitem | Papurau |
|---|---|---|
| 09:00 | Croeso | 1. Cofnodion<br>2. Pwyntiau gweithredu |
| 09:10 | Digwyddiad Grwpiau Cyfranogiad y Strategaeth ar 16 Hydref a chanfyddiadau cyfarfodydd y Grwpiau Cyfranogiad y | |

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://llyw.cymru/cyfarfod-y-bwrdd-gwaith-ieuenctid-dros-dro-14-hydref-2020-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am **hawlfraint**.

| Amser | Eitem | Papurau |
|---|---|---|
| | Strategaeth sy’n ailddechrau | |
| 09:30 | Gweithdy Wavehill | |
| 11:00 | Egwyl | |
| 11:10 | Yr wybodaeth ddiweddaraf gan Lywodraeth Cymru<br>Yr wybodaeth ddiweddaraf gan Keith | |
| 11:20 | Trafodaethau am adroddiad y bwrdd | 3. Adroddiad y bwrdd |
| 13:00 | Diwedd y cyfarfod | |

# Yn bresennol: Aelodau

| Enw | Swyddogaeth |
|---|---|
| Keith Towler (KT) | Cadeirydd y Bwrdd Gwaith Ieuenctid Dros Dro |
| Sharon Lovell (SL) | Cyfarwyddwr Gweithredol ar gyfer y Gwasanaeth Eiriolaeth Ieuenctid Cenedlaethol ac Is-gadeirydd Cyngor Cymreig y Gwasanaethau Ieuenctid |

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://llyw.cymru/cyfarfod-y-bwrdd-gwaith-ieuenctid-dros-dro-14-hydref-2020-html** i weld y fersiwn diweddaraf.

Gwybdaeth am **hawlfraint**.

## Yn bresennol: Aelodau

| | |
|---|---|
| | Gwirfoddol (CWVYS) |
| Efa Gruffudd Jones (EGJ) | Prif Weithredwr y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol |
| Eleri Thomas (ET) | Dirprwy Gomisiynydd Heddlu a Throseddu Gwent |
| Simon Stewart (SS) | Deon Cyfadran y Gwyddorau Cymdeithasol a Bywyd ym Mhrifysgol Glyndŵr Wrecsam |
| Jo Sims (JS) | Rheolwr Gwasanaeth Ieuenctid Blaenau Gwent |

## Yn bresennol: Llywodraeth Cymru (LlC)

| | |
|---|---|
| Donna Lemin (DL) | Uwch-reolwr Strategaeth Gwaith Ieuenctid |
| James McCrae (JM) | Rheolwr Strategaeth Gwaith Ieuenctid |
| Gemma | Pennaeth Strategaeth Gwaith Ieuenctid |

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://llyw.cymru/cyfarfod-y-bwrdd-gwaith-ieuenctid-dros-dro-14-hydref-2020-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.

## Yn bresennol: Aelodau

| | |
|---|---|
| Roche Clarke (GRC) | |
| Chris Jones (CJ) | Dirprwy Gyfarwyddwr yr Is-adran Cymorth i Ddysgwyr |
| Caitlin Doyle (CD) | Prentis, Yr Is-adran Cymorth i Ddysgwyr |
| Dareth Edwards | Rheolwr Polisi Gwaith Ieuenctid |

## Ymddiheuriadau

Dusty Kennedy (DK) – Cyfarwyddwr TRM Academy

## Cofnodion a chamau gweithredu o’r cyfarfod diwethaf

KT, DL a SL i gael cyfarfod am strategaeth ar gyfer cael pobl ifanc i ymgysylltu â’r grŵp yn y dyfodol.

Cododd ET broblem, sef bod eu gweinydd yn rhwystro rhai negeseuon e-bost o gyfeiriadau e-bost Llywodraeth Cymru. Bydd Llywodraeth Cymru yn archwilio’r

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://llyw.cymru/cyfarfod-y-bwrdd-gwaith-ieuenctid-dros-dro-14-hydref-2020-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.

materion hyn.

Awgrymodd ET gyfarfodydd unigol rhwng aelodau'r bwrdd a GRC, ar ôl i GRC ddechrau ei swyddogaeth yn y tîm. JM i sefydlu'r cyfarfodydd hyn.

## Digwyddiad Grwpiau Cyfranogiad y Strategaeth – 16 Hydref

Rhoddodd JM yr wybodaeth ddiweddaraf am y cynnydd ynghylch y digwyddiad a oedd yn cynnwys holl aelodau'r bwrdd a holl aelodau Grwpiau Cyfranogiad y Strategaeth ar 16 Hydref. Roedd y Bwrdd yn cytuno â'r agenda arfaethedig.

Pwysleisiodd ET yr angen i sicrhau bod y digwyddiad yn rhan o'r cyd-destun Cenedlaethol cyfredol sy'n ymwneud â COVID-19. Roedd y Bwrdd yn glir bod ailgychwyn Grwpiau Cyfranogiad y Strategaeth wedi codi momentwm eto a bod angen i'r digwyddiad roi hwb i'r momentwm hwn gan fod yn ymwybodol o'r cyd-destun hwn.

## Gweithdy Wavehill

Cafodd y bwrdd gyflwyniad gan Wavehill, yn cyflwyno'r canfyddiadau sy'n dod i'r amlwg o'u hymchwil i ddatblygu theori newid ar gyfer gwaith ieuenctid hyd yma.

## Yr wybodaeth ddiweddaraf gan Lywodraeth Cymru

Dywedodd DL y bydd GRC yn cymryd lle Michael Maragakis, ac y bydd yn dechrau'n fuan. Bydd Claire Young yn ymgymryd â gwaith ar grantiau. Bydd Anisa Khan yn dychwelyd i'r tîm yn dilyn absenoldeb mamolaeth, a fydd yn

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://llyw.cymru/cyfarfod-y-bwrdd-gwaith-ieuenctid-dros-dro-14-hydref-2020-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.

cynyddu capasiti’r gangen Ymgysylltu ag Ieuenctid yn Llywodraeth Cymru. DL i anfon e-bost i egluro swyddogaethau pawb yn y tîm.

Dywedodd DE fod y Gwobrau Rhagoriaeth Gwaith Ieuenctid ar YouTube ddydd Gwener wedi ei wylio dros 700 o weithiau hyd yma. Derbyniwyd llawer o sylwadau cadarnhaol gan y sector ac ategodd ET y sylwadau hyn. Awgrymodd EGJ y dylid ystyried elfen ddigidol mewn seremonïau yn y dyfodol oherwydd bod hyn yn eu gwneud yn llawer mwy hygyrch ar draws y sector. Awgrymodd SL y dylid cynnwys y gweinidog y flwyddyn nesaf; dywedodd DL y bydd DE yn ymgymryd â phrosiect sy’n canolbwyntio ar astudiaethau achos o’r gwobrau.

## Yr wybodaeth ddiweddaraf gan Keith Towler

Dywedodd KT ei fod wedi bod yn bresennol yn un o gyfarfodydd y Grŵp Prif Swyddogion Ieuenctid yn ddiweddar, sef cyfarfod grŵp gweithredol CWVYS, Sophie Howe (Comisiynydd Cenedlaethau’r Dyfodol Cymru) a Chris Llewellyn (Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru). Dywedodd KT fod y cyfarfodydd hyn wedi bod yn gynhyrchiol a bod pawb wedi ymgysylltu ac yn cytuno â’r pwyntiau a awgrymwyd. Roedd pawb yn cynnig cymorth i waith y Bwrdd.

Dywedodd KT y bydd yn cael cyfarfodydd yn fuan gydag Aled Roberts, Comisiynydd y Gymraeg (ochr yn ochr ag EGJ), Lynne Neagle (Cadeirydd y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc) a Kirsty Williams (y Gweinidog Addysg).

Dywedodd KT fod swyddogion Llywodraeth Cymru’n gweithio ar hyn o bryd i sefydlu cyfarfod rhwng KT a’r Prif Weinidog.

## Adroddiad y Bwrdd

Canolbwyntiodd drafodaethau’r bwrdd ar sicrhau bod yr adroddiad yn dangos eu gweledigaeth ar gyfer cyfeiriad teithio gwaith ieuenctid yng Nghymru yn y

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://llyw.cymru/cyfarfod-y-bwrdd-gwaith-ieuenctid-dros-dro-14-hydref-2020-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.

dyfodol. Pwysleisiodd KT y bydd hyn yn symudiad o newid clir i'r sector gwaith ieuenctid ac roedd y bwrdd yn cefnogi'r dull hwn. Cydnabu KT yr angen i'r ddogfen gael ei chwtogi o'r drafft cyntaf presennol a bod angen i'r ddogfen fod yn drawiadol.

Awgrymodd ET y dylid cyfochri'r adroddiad â chynllun adfer Llywodraeth Cymru, bydd DL yn gweithio gyda CJ i ddilyn y posibiliadau yn hyn o beth.

Gofynnodd KT am i sylwadau ynghylch y drafft gael eu dychwelyd ato erbyn 21 Hydref.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://llyw.cymru/cyfarfod-y-bwrdd-gwaith-ieuenctid-dros-dro-14-hydref-2020-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am **hawlfraint**.

## Ynghylch y ddogfen hon

Mae’r ddogfen hon yn gopi o’r dudalen we **Cyfarfod y Bwrdd Gwaith Ieuenctid Dros Dro: 14 Hydref 2020** a lawrlwythwyd.

Ewch i **https://llyw.cymru/cyfarfod-y-bwrdd-gwaith-ieuenctid-dros-dro-14-hydref-2020-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Efallai na fydd y ddogfen hon yn hollol hygyrch; darllenwch ein **datganiad hygyrchedd** i gael rhagor o wybodaeth.

Gwybdaeth am **hawlfraint**.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://llyw.cymru/cyfarfod-y-bwrdd-gwaith-ieuenctid-dros-dro-14-hydref-2020-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am **hawlfraint**.